

## Nodiadau Canllaw Eco-Flex i Asiantau

### Y camau sydd i'w cymryd

1. Dylai asiantau sydd â diddordeb mewn gweithio yn Sir y Fflint gysylltu â Chyngor Sir y Fflint ar 01352 701667 yn y lle cyntaf.
  2. Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn annog asiantau, neu gwmnïau canfasio, i gynnal galwadau diwahoddiad wyneb yn wyneb. Rydym yn mynnu eich bod yn cysylltu â deiliaid tai i ddechrau dros y ffôn, e-bost, llythyr neu drwy bostio taflen. Bydd unrhyw gwynion gan ddeiliaid tai am alwadau diwahoddiad yn cael eu hymchwilio a gallai arwain at y Cyngor yn peidio â chyflwyno datganiadau.
  3. Byddwch yn cyflwyno'r cais i'r Cyngor Sir ar ran deiliad y tŷ. Sicrhewch nad yw deiliad y tŷ'n cyflwyno'r cais yn uniongyrchol eu hunain.
  4. Eglurwch i ddeiliad y tŷ bod ECO-Flex yn gynllun dan arweiniad y sector preifat a bod y cyllid ar gyfer gwelliannau'n cael ei ddyfarnu gan y cwmnïau ynni. Mae angen i ddeiliaid tai fod yn ymwybodol bod gan Gyngor Sir y Fflint gyfranogiad cyfyngedig ac nad yw'n gyfrifol am roi'r arian, penodi contractwyr, gosod y gwaith neu wirio ansawdd y gwaith a wneir.
  5. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw frandio gan y Cyngor Sir, neu awgrymu eich bod yn gweithio ar ran y Cyngor Sir, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.
  6. Rhaid i chi adael eich manylion cyswllt, yn cynnwys enw cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost gyda deiliad y tŷ. Rhowch wybod i ddeiliad y tŷ, pe baent yn dymuno gwneud unrhyw ymholiadau, eisiau gwirio cynnydd neu godi pryderon, y dylent gysylltu â chi ac **nid** y Cyngor Sir.
  7. Drwy gyfranogi yn y cynllun ECO-Flex, mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio cefnogi'r aelwydydd hynny sy'n profi tlodi tanwydd ac mewn perygl o fyw mewn tŷ oer. I sicrhau bod y deiliaid tai cymwys hynny'n elwa o'r cynllun, rhaid i asiantau argymhell yr isadeiledd mwyaf fforddiadwy ac effeithlon o ran ynni i ddeiliad y tŷ a'r eiddo ac i beidio â chynnig y mesurau hynny a all ddiogelu lefel uwch o ymyrraeth grant.
  8. Rhaid rhoi gwybod i ddeiliaid tai am unrhyw waith a chostau ychwanegol nad oes modd eu hariannu drwy'r cynllun ECO-Flex, ac esbonio wrthynt mai nhw fydd yn gorfod talu'r costau hyn. Rhaid rhoi gwybod i ddeiliaid tai nad ydynt yn gorfod bwrw ymlaen â'r cynllun os nad ydynt yn credu bod y gwaith gwella'n addas neu'n fforddiadwy iddynt.
  9. Rhaid i'r tâl gweinyddol o £101.50+ TAW (bob Datganiad) a godir gan Gyngor Sir y Fflint wrth ddarparu'r Datganiad gael ei dalu'n llawn gan y cyflenwr ynni neu eu hasiant/contractwr. Ni ddylech drosglwyddo'r gost hon i ddeiliaid tai sy'n cael cymorth o'r cynllun, mewn unrhyw amgylchiadau.
- Rhaid talu £121.80 i Gyngor Sir y Fflint unai â siec (yn daladwy i Gyngor Sir y Fflint) neu drwy drosglwyddiad BACS (gan ddyfynnu BAX 371 ECO). Rhif cyfrif y Cyngor Sir yw 72521775 a'r cod didoli yw 54-10-10. Rhaid gwneud y taliad yr un pryd ag y cyflwynir y ffurflenni cais. Rydym**

angen taliad wedi'i rifo i groesgyfeirio'r taliad BACS neu siec yn ôl i'r eiddo unigol ar y ffurflen gais.

11. Defnyddiwch y templed ffurflen gais a ddarperir a rhowch logo eich cwmni a'ch rhybudd preifatrwydd yn ôl y cyfarwyddiadau.
12. Lle cyflwynir sawl ffurflen Datganiad, rhaid cyflwyno taenlen ategol yn nodi cyfeiriad yr eiddo, cyfeirnod a meini prawf cymhwyso hefyd.
13. Rhaid i bob asiant roi enw a manylion cyswllt a rhif PAS 20/30 bob contractwr a gosodwr a ddefnyddir i wneud y gwaith, i Gyngor Sir y Fflint.
14. Disgwylir i bob asiant a chontractwr gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Bydd angen i chi wneud gwaith yn unol â gofynion Ofgem a gweithredu'n unol ag arfer orau'r diwydiant mewn perthynas â gofal defnyddwyr a safonau ansawdd.
15. Dylai holl ddogfennau cais gael eu hanfon i Shelley Webber, Tîm Ynni Domestig, Cyngor Sir y Fflint, Swyddfeydd y Sir, Lôn Swan, Y Fflint, CH6 5BD neu anfonwch e-bost i [shelley.webber@flintshire.gov.uk](mailto:shelley.webber@flintshire.gov.uk)